# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 3

SICRHAU ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL A’U CYLLIDO

*Cyllido’r Comisiwn*

VALID FROM 01/08/2024

### 86 Cyllido’r Comisiwn: cyfyngiadau ar delerau ac amodau

(1) Ni chaiff telerau ac amodau o dan adran 85 sy’n ymwneud ag adnoddau ariannol a ddarperir gan y Comisiwn i berson o dan adran 88 neu 89 (addysg uwch), adran 97 (addysg bellach neu hyfforddiant) neu adran 105 (ymchwil ac arloesi) ymwneud â gweithgareddau a gynhelir gan berson penodol oni bai eu bod yn gosod gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy—

(a) mewn cysylltiad â phob person, neu bob person o ddosbarth neu ddisgrifiad penodedig, a

(b) cyn bod adnoddau ariannol o swm penodedig neu ddisgrifiad penodedig yn cael eu darparu gan y Comisiwn mewn cysylltiad â gweithgareddau a gynhelir gan berson.

(2) Yn is-adran (1), ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu yn y telerau a’r amodau.

(3) Ni chaniateir i delerau ac amodau o dan adran 85 sy’n ymwneud â darparu adnoddau ariannol gan y Comisiwn gael eu llunio drwy gyfeirio—

(a) at y meini prawf ar gyfer dethol, penodi neu ddiswyddo staff academaidd, a sut y maent yn cael eu cymhwyso, neu

(b) at y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr, neu sut y maent yn cael eu cymhwyso.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 86. (See end of Document for details)*

(4) Caniateir i delerau ac amodau o dan adran 85 sy'n ymwneud â darparu adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adran 105 (ymchwil ac arloesi) gael eu llunio drwy gyfeirio at faes ymchwil neu arloesi ond dim ond os yw'r maes hwnnw wedi ei bennu yng nghynllun strategol y Comisiwn a gymeradwyir o dan adran 15.

(5) Caniateir i delerau ac amodau o dan adran 85 sy'n ymwneud â darparu adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adran 88 neu 89 (addysg uwch) gael eu llunio drwy gyfeirio at gwrs astudio penodol, ond ni chânt ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn arfer swyddogaeth mewn ffordd sy'n gwahardd neu'n ei gwneud yn ofynnol darparu cwrs astudio penodol.

(6) Ni chaniateir i delerau ac amodau o dan adran 85 sy'n ymwneud â darparu adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adran 88 neu 89 (addysg uwch) neu adran 105 (ymchwil ac arloesi) gael eu llunio drwy gyfeirio—

- (a) at rannau penodol o gyrsiau astudio;
- (b) at raglenni ymchwil penodol neu brosiectau arloesi penodol;
- (c) at gynnwys cyrsiau astudio, rhaglenni ymchwil neu brosiectau arloesi;
- (d) at y modd y caiff y cyrsiau hynny, y rhaglenni hynny neu'r prosiectau hynny eu haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu.

(7) Nid yw is-adrannau (5) a (6) yn atal telerau ac amodau rhag cael eu llunio drwy gyfeirio at ddarparu ac asesu cyrsiau astudio neu rannau o gyrsiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 86 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 86.